

MHA

Sul 2019

Un Sul, un gwasanaeth, un eglwys



Awgrymiadau ar gyfer Trefn Gwasanaeth

Awgrymiadau ar gyfer Emynau

Ti yw'r Un sy'n adnewyddu (rhif 579 yn Caneuon Ffydd)

Mi awn ymlaen yn nerth yr atgyfodiad (addasiad Beryl Jones o emyn Saesneg June Boyce-Tillman).

Tôn: Londonderry Air

Tyrd, Ysbryd cariad mawr (rhif 599 yn Caneuon Ffydd)

Galwad i addoli

Adeg y Pentecost roedd y rhai oedd yn caru ac yn gwasanaethu'r Arglwydd "i gyd mewn un man gyda'i gilydd". Yma heddiw, rydym ninnau'n un garfan o bobl, wedi dod at ein gilydd mewn un lle, ac mae ein ffydd gyffredin yn ein huno. Mae pob un ohonom wedi'n creu yn unigryw ar ddelw Duw; mae pawb ohonom yn adlewyrchu rhan o'r Gogoniant Dwyfol. Gyda'n gilydd, rydym ni'n cynnig ein haddoliad ac yn disgwyl yn obeithiol am roddion Ysbryd Glân Duw. Gadewch i ni'n awr neilltuo ennyd i grynhoi ein meddyliau, i baratoi ein calonnau, ac i weddio dros bawb yr ydym ni'n addoli gyda nhw heddiw.

Gweddïau agoriadol – gellir defnyddio un neu fwy o'r gweddïau sy'n dilyn

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti fod y byd yn dy ddwylo di, a'th fod ti'n creu ac yn ail greu'n barhaus.

Diolchwn i ti am harddwch ac amrywiaeth dy greadigaeth, a diwylliannau a phobloedd y ddaear hon.

Gweddïwn y byddi di gyda ni heddiw wrth i ni roi sylw i'r gwahaniaethau sy'n bodoli yn ein cymunedau ein hunain. Wrth i ni chwilio am ffyrdd i ofalu am ein gilydd a chyfathrebu â'n gilydd, gofynnwn am help ac arweiniad dy Ysbryd Glân. Trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

Dduw Dad cariadus, dewn yn un teulu i'th addoli.

Mae rhai ohonom wedi dy adnabod ers amser hir;

Newydd ddechrau dysgu am dy gariad y mae eraill ohonom;

Ond fel ffrindiau Iesu dewn gyda'n gilydd, yn un teulu, i'th addoli.

O Dduw sy'n Dad i bawb ohonom, rydym ni'n dy garu, ac yn dod yn un teulu i'th addoli.

Helpa ni, Arglwydd cariadus,

I weld pobl eraill fel rwyt ti'n eu gweld;

Pob person yn arbennig ac yn unigryw,

Yn haeddu parch a gofal cariadus.

Helpa ni, Arglwydd cariadus,

I weld gwerth pobl eraill

Er mwyn gwybod beth yw ein gwerth ni i ti. Amen.

Gweddi o Ddiolchgarwch

Arweinydd (A): *Diolch am ein caru ni yn Iesu:*

Ymateb (Y): *Diolch am ein caru ni yn Iesu.*

Arglwydd, pan fyddwn ni'n meddwl am bopeth rwyd ti wedi'i wneud i ni ac yn parhau i'w wneud i ni ac yn ein bywydau, rydyn ni'n rhyfeddu, ac mae ein calonnau'n llenwi â diolchgarwch gostyngedig a moliant.

A: *diolch am ein caru ni yn Iesu:*

Y: *diolch am ein caru ni yn Iesu.*

Diolchwn i ti am rodd bywyd, gyda'i holl bosibiliadau a heriau, ac am rodd ffydd, sy'n gwneud ein bywydau'n gyflawn.

A: *diolch am ein caru ni yn Iesu:*

Y: *diolch am ein caru ni yn Iesu.*

Diolchwn i ti am roi ein gilydd yn rhodd i ni, am gariad teulu, eglwys a ffrindiau, am gyfleoedd i roi ac i dderbyn, am gymdeithion ar daith bywyd.

A: *diolch am ein caru ni yn Iesu:*

Y: *diolch am ein caru ni yn Iesu.*

Diolchwn i ti am roi dy hun yn rhodd i ni yn Iesu, sy'n newid ein cyfeiriad ac yn dod â ni'n ôl atat ti; am iddo farw drosom ni ar y groes unig, ac am ei fywyd newydd ar Sul y Pasg.

A: *diolch am ein caru ni yn Iesu:*

Y: *diolch am ein caru ni yn Iesu.*

Darlleniadau a Awgrymir

Actau 2:1-21

Salm 67

Salm 139

I Corinthiaid 12:12-20

Pregeth ar Actau 2:1-21

Roedd dinas Jerwsalem, fel dinasoedd heddiw, yn denu torfeydd amrywiol o bobl; pobl oedd yn chwilio am bleser, ysblander, cyflogaeth, addysg, llesiant, diogelwch a sefydlogrwydd.

Mae trafniadaeth a chyfathrebu'r cyfnod modern yn golygu bod llawer ohonom a fyddai wedi treulio gwyliau rywle yn y Deyrnas Unedig, bellach (p'un ai'r haul ai sgio sydd wrth ein bodd) yn mynd i lefydd ar draws y byd i gael gwyliau. Mae ein teuluoedd wedi ymledu i bob rhan o'r byd, ac yn ystod y misoedd nesa bydd llawer ohonon ni'n wynebu ciwiau yn y meysydd awyr er mwyn dianc am rai wythnosau. Felly, fwy na thebyg, byddwch chi'n gwybod sut deimlad yw bod mewn gwlad lle nad ydych chi'n deall y brif iaith, ond rydych chi'n sydyn yn deall rhywbeth rydych chi'n ei glywed.

Rhywun 'fel fi' sydd yma. Rhywun y galla i siarad â nhw. Rhywun sy'n fy neall i.

Fe fues i ym Morocco rai blynyddoedd yn ôl, a theithio ar y trêen o Ouarzazate (lawr yn y de) yn ôl i Tangier. Alla i ddim siarad Ffrangeg nac Arabeg, ac roedd oedi ar y trêen. Er mod i ddim yn pryderu rhyw lawer, roedd y daith yn un hir, a doedd neb yn gallu cyfathrebu â fi ond trwy wenu a gwneud ystumiau. Roedd yn rhyddhad disgyn o'r trêen, a chlywed rhywun yn galw fy enw ac yn fy nghyfarch yn fy iaith fy hun! Yn y fan a'r lle, roedd fel petawn i wedi dod adre. Roeddwn i'n gwybod fy mod i wedi cael fy 'narganfod'. Roeddwn i'n gwybod mod i'n perthyn. Roeddwn i'n ddiogel.

Mae iaith yn bwysig.

Mae'r darn o'r Actau yn dweud wrthyn ni fod pobl o 'bob cenedl dan haul' yn byw yn Jerwsalem, ac mae'n cyfeirio'n benodol at wledydd ardal Môr y Canoldir – Rhufain, Creta, Twrci, Libya, yr Aifft, Saudi Arabia, Irac, Iran a Syria. Ac fe glywodd pawb ohonyn nhw eu hiaith eu hunain yn cael ei siarad. Ond nid dim ond siarad oedd yn digwydd. Roedd y disgyblion yn ymddwyn fel petaen nhw wedi meddwi, a chafodd torf ei denu gan eu hymddygiad cyn clywed beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud.

Mae sut rydyn ni'n ymddwyn, a'n gweithredoedd, yn dweud cymaint hefyd. Ac mae llawer gan ddisgyblion Crist i'w ddysgu am hynny heddiw. Dyw siarad yn unig ddim yn ddigon, rhaid byw yn ogystal. Rhaid i ni fod yn ddilys, a rhaid i'n geiriau a'n bywydau gyfleu'r efengyl.

+++++

Mae'r darn o'r Actau yn sôn am y disgyblion yn 'siarad â thafodau dieithr', ac mae'n hawdd i ni ganolbwyntio gormod ar y geiriau hynny. Ond os tybiwn mai dim ond sôn am un o'r holl roddion carismataidd a restrwyd yn y Testament Newydd (TN) sydd yma, rydyn ni'n colli pwynt pwysicach a mwy sylfaenol, sef bod y bobl yn deall beth roedd y disgyblion yn ei ddweud. Roedd y dorf fawr, amrywiol yn deall beth roedden nhw'n ei ddweud 'pawb yn ei iaith ei hun'.

Duw sydd yma'n dweud – 'Nid neges i ti yn unig yw hon, mae ar gyfer y byd i gyd. Ewch allan i'w llefaru, ei gweithredu, a'i byw...!' Fel mae Paul yn dweud yn ei lythyr at yr eglwys yng Nghorinth:

*'Os llefaraf â thafodau dynion ac angylion
a heb fod gennyf gariad
efydd swnllyd ydwyf neu symbal aflafar.'*

Ceir amrywiol restrau o ddoniau'r Ysbryd yn y TN – ac maen nhw'n cynnwys sgiliau fel doethineb, proffwydo, gweinyddu, cynorthwyo ac ati – yna mae ffrwythau'r Ysbryd – cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch ac yn y blaen..

O edrych arnyn nhw fe welwch fod Ysbryd Duw mor amrywiol â'r ddynoliaeth, ac yn fwy felly.

+++++

Roedd y clwstwr bach o ddisgyblion, a fu'n rhedeg i ffwrdd mewn dychryn rai wythnosau ynghynt, ac a oedd ers hynny wedi bod yn cwrdd y tu ôl i ddrysau caeedig yn bennaf, oherwydd eu hofn, nawr allan mewn man cyhoeddus yn ymddwyn fel ffyliaid ac yn siarad mewn iaith oedd yn ddieithr i bawb, ond yr oedd pawb yn ei deall.

Y rheswm am hynny yw bod yna fath arall o gyfathrebu'n digwydd, lle mae angen gwranddo yn hytrach na siarad.

Siaradodd Iesu am ein cyfrifoldeb NI i wrando a byw ein ffydd yn y byd.

*“Pan ddaw'r Eiriolwr,
y byddaf yn ei anfon atoch oddi wrth y Tad,
Ysbryd y gwirionedd sy'n dod oddi wrth y Tad,*

*bydd ef yn tystio ar fy rhan.
Rhaid i chwithau dystio hefyd
oherwydd buoch gyda mi o'r dechreuad."*

Mae Duw yn siarad â ni mewn iaith rydyn ni'n ei deall. Ein hiaith unigol NI y mae Duw yn ei defnyddio i siarad â ni. Dyw Duw ddim yn gofyn i ni fod yn rhywbeth gwahanol i'r hyn ydym ni, ond i fod beth ydym ni, ac i weithredu fel cenhadon ar ei ran yn y byd hwn, y mae ei angen mor fawr.

Roedd Pedr yn arweinydd ac yn llefarydd naturiol. Fe welwn hynny ar hyd tudalennau'r ysgrythur, ac wrth i'r Ysbryd Glân ddyfod, gwelodd Pedr y doniau hynny'n codi i lefel gwbl newydd.

Beth yw eich doniau chi? Beth yw fy noniau i? Ydyn nhw ar gael i Dduw eu defnyddio?

+++++

Neges Dydd y Pentecost yw – peidiwch ag aros tu ôl i'ch drysau caeedig oherwydd ofn, yn hytrach defnyddiwch y rhoddion a'r sgiliau a gawsoch i fyw a gweithio er gogoniant a moliant i Dduw.

Dewch i mewn yma, yn sicr – i gyffesu, i brofi maddeuant Duw a'i rym iachusol, i dderbyn y sacrament, ond yna ewch allan, ewch allan, ewch allan... i fyw a gweithio...

+++++

Rydym ni'n cydnabod y tywyllwch oddi mewn i'n hunain a natur anhrefnus ein hysbryd wrth i ni weddio drosom ein hunain a thros bobloedd, dinasoedd a chenhedloedd ein byd, gan ddefnyddio geiriau'r hen emyn:

*Tydi all ein glanhau
o'n beiau, fawr a mân;
gad INNI fyth fwynhau
dy ddoniau, Ysbryd Glân.*

Gweddïau o Eiriolaeth

Gweddïau am gyfanrwydd a iachâd os yw hynny'n briodol... Gallwn fod yn gyfan yn ein natur glwyfedig.

Arweinydd: Arglwydd, yn dy gariad a'th drugaredd

Ymateb: Clyw ein gweddi.

Arglwydd, gweddiwn dros y byd a'i arweinwyr,

Gofynnwn i ti agor llygaid y rhai sydd â grym, awdurdod neu ddylanwad i ffyrdd doeth a gwir dy deyrnas di, teyrnas cyfiawnder, heddwch a chariad, lle mae pob bywyd dynol yn cael ei werthfawrogi a'i amddiffyn.

A: Arglwydd, yn dy gariad a'th drugaredd

Y: Clyw ein gweddi.

Arglwydd, gweddiwn dros yr Eglwys a'i chenhadaeth ar y ddaear,

Fel bo i ninnau, gyda'n gilydd, drawsnewid bywydau â newyddion da dy gariad achubol i'r ddynoliaeth gyfan.

Gweddiwn dros waith yr MHA ymhlith yr henoed, yn dod ag ymdeimlad o werth i'r rhai nad yw eu llais bob amser yn cael ei glywed.

Dros....

A: Arglwydd, yn dy gariad a'th drugaredd

Y: Clyw ein gweddi.

Arglwydd, gweddiwn dros y rhai sy'n dioddef neu sydd mewn angen,
Ac yn arbennig dros

Ac am henaint y rhai rydym ni'n eu hadnabod a'n henaint ein hunain, gweddiwn y bydd, er gwaethaf ei gyfyngiadau, yn gyfnod bendithiol, yn gyfnod o deimlo gwerthfawrogiad a chariad.

A: Arglwydd, yn dy gariad a'th drugaredd
Y: Clyw ein gweddi.

Cyflwynwn y gweddiâu hyn yn enw Iesu Grist,
A roddodd ei hun drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid, Amen.